Siarad, Dysgu, Gwneud:

Rhieni, Plant ac Arian

Pecyn Hwylusydd

Deunyddiau Sesiwn 2 Awr: Cynllun Sesiwn, Taflenni Twyllo, Taflenni Dosbarthu a Chardiau Gweithgareddau

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

Cynllun Sesiwn Gweithdy Cwrs Rheini

	Gweithgaredd	Nodau sy'n gysylltiedig â hyn	Deunyddiau	Amser Gweithgaredd (Cyfanswm Munudau)
	Croeso a thrafod yr wythnos flaenorol			10 (10 munud)
1	**Modelu Arian** Gofynnwch i rieni ddychmygu bod estron o blaned arall wedi dod i'r ddaear ac yn eu dilyn am ychydig ddyddiau. Dyw'r estron yn gwybod dim am arian, ychydig iawn o Gymraeg sydd ganddo a phrin yw ei ddealltwriaeth o'r byd. Beth fyddai'r estron yn ei weld am arian? Beth fyddai'n ei ddysgu? Beth fyddai'n ei ddrysu? Beth fyddai'n ei wneud / feddwl am arian wedi'n gwylio ni? Nawr dychmygwch mai'r estroniaid hyn yw ein plant – dyma sut fyddai pethau'n ymddangos iddyn nhw o bosibl. Beth allwn ni ei wneud i'w helpu? *Gweler y Ddalen Atebion am wybodaeth ar sut i gynnal y gweithgaredd hwn.*	Rhieni yn dechrau meddwl am beth mae plant yn ei ddysgu am arian, sut maent yn gweld arian yn ein cymdeithas, a bylchau posibl. Rhieni yn deall pam ein bod angen mynd ati i ddysgu ein plant am arian a'u rôl allweddol yn hyn. Rhieni yn dechrau meddwl am yr holl lefydd y mae plant yn cael negeseuon am arian.	Lluniau o estron (cardiau A5, 2 set o 6 estron) Dalen Atebion Modelu Arian	15 (25)

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

QUAKER SOCIAL ACTION

Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

Cynllun Sesiwn Gweithdy Cwrs Rheini

2	**Cyflwyniad – nodau allweddol ar gyfer y diwrnod a thrafodaeth** Esboniwch y pethau y byddwch yn edrych arnynt heddiw: • Ystyried pam bod angen i ni addysgu plant am arian o oed ifanc • Archwilio ffyrdd o addysgu plant am arian trwy brofiadau bob dydd • Trafod opsiynau arian poced • Meddwl am beth ydyn ni eisiau i'n plant ddysgu am arian a sut i basio hyn ymlaen • Strategaethau i ddelio â heriau e.e. swnian Arwain trafodaeth fer gyda'r rhieni ynghylch eu plant ac arian, *defnyddio'r cwestiynau ysgogi yn y Ddalen Atebion.*	Rhieni yn dechrau deall bod oed 3 i 7 (a 7+) oll yn oedrannau allweddol ar gyfer dysgu am arian. Rhieni yn dechrau gweld eu rôl fel athrawon yn helpu eu plant i ddysgu am arian. Rhieni yn deall pam ein bod angen mynd ati i ddysgu i'n plant am arian.	Dalen Atebion Cyflwyniad	10 (35)
3	**Taith Siopa – Addysgu plant am arian trwy brofiadau dydd i ddydd** Dosbarthwch y senario i'r grŵp. Darllenwch trwyddo fel grŵp a thrafod y cwestiynau. *Gweler y Ddalen Atebion am ysgogiadau trafodaeth.*	Rhieni yn deallt sut i addysgu eu plant am arian trwy weithgareddau dydd i ddydd. Rhieni yn cynyddu'r nifer o sgyrsiau maent yn eu cael gyda'u plant am arian.	Senario Taith Siopa Dalen Atebion Senario Taith Siopa	15 (50)

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

QUAKER SOCIAL ACTION

Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

Cynllun Sesiwn Gweithdy Cwrs Rheini

	Gweithgaredd	Nodau sy'n gysylltiedig â hyn	Deunyddiau	Amser (Munudau)
4	**Pŵer Plagio** Yn y senario taith siopa, mae trafodaethau am blant yn gofyn am bethau yn debygol o fod wedi codi. Rhowch yr Arwyddion Pŵer Plagio i fyny ar y naill ochr o'r ystafell. Darllenwch y datganiadau ar y ddalen atebion, a gofynnwch i bobl symud tuag at yr arwyddion “Mi wnai drio hynny” neu “Wna i ddim trio hynny” yn dibynnu os ydynt yn cytuno / anghytuno. Neu, gofynnwch i bobl sefyll os ydyn nhw'n meddwl “Mi wnai drio hynny”, neu aros ar eu heistedd os nad ydynt yn meddwl y byddant yn ei drio.	Rhiant yn datblygu strategaethau i ddelio â phwysau gan blant.	Arwyddion Pŵer Plagio Dalen Atebion Pŵer Plagio	10 (60)
	EGWYL			10 (70)
5	**Trafod Arian Poced** Cyflwynwch y pedwar cerdyn opsiynau arian poced. Naill ai mewn parau, grwpiau bach, neu fel grŵp cyfan trafodwch fanteision / anfanteision pob opsiwn arian poced. *Gweler y Ddalen Atebion am ysgogiadau trafodaeth.*	Rhieni yn deall yr opsiynau o ran arian poced. Rheini yn deall pam ei bod yn ddefnyddiol i roi arian poced. Rheini yn edrych ar sut i roi profiad o reoli eu harian eu hunain i’w plant.	Cardiau A4 Arian Poced x 4 Dalen Atebion Arian Poced	15 (85)

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

QUAKER SOCIAL ACTION

Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

Cynllun Sesiwn Gweithdy Cwrs Rheini

	Gweithgaredd	Nodau sy'n gysylltiedig â hyn	Deunyddiau	Amser (Munudau)
6	**Trafodaethau Arian, am beth ydyn ni'n sôn?** Cyflwynwch y cardiau A4 gyda gwahanol fracedi oedran arnynt. Yna rhowch gardiau i rieni o beth allent drafod (e.e. o ble daw'r arian, sut i arbed arian ac ati). Gofynnwch i rieni roi'r cardiau gyda'r oedran ieuengaf pan fyddent yn ystyried cael y drafodaeth gyda'u plant. Atgyfnerthwch nad oes ateb cywir, felly efallai na fyddant yn cytuno ond mae'n bwysig meddwl am beth sy'n gweithio i bob teulu. *Gweler y Ddalen Atebion am gwestiynau ysgogi wrth i chi fynd ymlaen.*	Rhieni yn cynyddu nifer y sgyrsiau am arian yn y cartref. Rheini yn cynyddu eu dealltwriaeth o wahanol ffyrdd i gynnwys plant mewn penderfyniadau ariannol. Rhieni yn ddigon hyderus i ddysgu eu plant am arian. Rheini yn treulio mwy o amser yn addysgu eu plant am arian.	Cardiau Oedran Trafodaeth Arian Cardiau Syniadau Trafodaeth Arian Dalen Atebion Trafodaeth Arian	15 (100)
7	**Beth nesaf?** Gofynnwch i'r rhieni feddwl am dri pheth yr hoffent i'w plant ei ddysgu am arian. Os yw'n bosibl, cofnodwch y rhain ar y ddalen weithgaredd. Nawr gofynnwch iddyn nhw feddwl beth maent am ddechrau ei wneud NAWR i helpu eu plant i ddysgu. Anogwch nhw i wneud yn siŵr eu bod yn nodau realistig – e.e. gallai fod yn cychwyn potyn ceiniogau adref i ddangos cynilion, yn hytrach na rhoi £10 yr wythnos i'r naill ochr gyda'i gilydd.	Rhieni yn treulio mwy o amser yn addysgu plant am arian. Rhieni yn cynyddu'r nifer o sgyrsiau am arian yn y cartref. Rhieni yn hyderus ac â dealltwriaeth gynyddol o wahanol ffyrdd i gynnwys plant mewn trafodaethau a phenderfyniadau ariannol.	Dalen Waith Beth Nesaf Dalen Atebion Beth Nesaf	5 (105)

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

QUAKER SOCIAL ACTION

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

Cynllun Sesiwn Gweithdy Cwrs Rheini

8	**Beth arall allwch chi ei wneud adref** Dosbarthwch y llyfryn i rieni. Tynnwch sylw at yr adrannau yn cynnwys: • Addysgu am arian ar wahanol oedrannau • Addysgu am arian trwy weithgareddau o ddydd i ddydd • Arian poced • Pŵer plagio • Ble i gael mwy o help (yn arbennig parthed eu cyllid eu hunain) Anogwch rieni i adolygu'r rhain nawr, ond hefyd wrth i'w plant dyfu i ddal i feddwl am sut i'w dysgu wrth iddynt dyfu'n hŷn.	Rhieni yn hyderus ac yn dechrau addysgu eu plant am arian yn y cartref. Cefnogi'r holl nodau uchod.	Llyfrynnau	5 (110)
9	**Cloi**			10 (120)

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

QUAKER SOCIAL ACTION

Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: MODELU ARIAN, DALEN ATEBION HWYLUSWR

1. Modelu Arian (15 munud, gorffen 25 munud i mewn i'r sesiwn)

Nod: I helpu rhieni i feddwl am beth mae eu plant yn ei ddysgu am arian. Trwy ddefnyddio estron, mae rhieni yn gallu mwynhau a pheidio ei bersonoli i'w plant neu iddyn nhw eu hunain.

Cynnal hyn fel **gweithgaredd grŵp cyfan**. Gofynnwch i'r **rhieni ddewis estron** o'r lluniau yn eich pecyn. Efallai y bydd rhaid i grwpiau mawr rannu estroniaid.

Esboniwch fod estron wedi dod i ddysgu am arian ar y ddaear ac y bydd yn eu dilyn o gwmpas am ychydig ddyddiau. Ychydig iawn mae'r estron yn ei wybod am arian na'r Ddaear, a dim ond ychydig bach iawn o Gymraeg sydd ganddo.

Cwestiynau i'w gofyn:

- Beth fyddai'r estron yn ei ddysgu am arian o'ch gwylio chi?
- Ble fyddai'n eich gweld yn defnyddio arian?
- A fyddai'n gweld arian parod? Cardiau? Beth fyddai'n ei feddwl am gardiau debyd / credyd?
- Sut olwg fyddai ar daith i'r archfarchnad i'r estron?
- Beth fyddai'n ei wneud o beiriannau twll yn y wal? Arian yn ôl?
- Beth fyddai'n ei weld wrth wylio'r teledu neu agor cylchgrawn?
- Sut fyddai bancio neu siopa ar-lein yn edrych? Talu biliau?
- A fyddai arian yn gwneud synnwyr? Beth fyddai'n ei ddrysu?
- Beth fyddai'n ei wneud / feddwl am arian pe byddai'n ceisio ein copïo? A fyddai'n ei gynilo? Ei wario?

Enghreifftiau y gallech eu rhoi os oes angen ysgogiad ar y grŵp:

Yn y siop, rydych yn casglu bwyd, yn tapio cerdyn ar sgrin, ac o bosibl yn cael mwy o arian yn ogystal â'ch bwyd. Os byddwch yn talu gydag arian parod, rydych chi'n rhoi arian ac yn cael arian yn ôl. Pan fyddwch yn mynd i beiriant arian, ac yn rhoi cerdyn i mewn a chael arian yn ôl. Mae'n hawdd iawn cael arian ar y Ddaear!

Efallai y bydd rhaid i rai pobl dalu neu "topio fyny" i gael nwy / trydan / ffôn, ond dyw'r estroniaid ddim yn gweld neb arall yn gwneud unrhyw beth i dalu… Maen nhw'n cael gwresogi, trydan, a galwadau ffôn am ddim!

Rydych chi'n archebu pethau ar y cyfrifiadur, does dim angen arian, ac maen nhw'n cyrraedd eich drws. Gwych! Mae'r estroniaid yn clywed am bobl yn sôn am bethau maent wedi eu prynu, ond nid sut maent wedi cynilo amdanynt.

Mae rhai wedi sôn am gynilo, ond dyw'r estroniaid ddim fel arfer yn gweld sut mae hyn yn digwydd.

Nawr gofynnwch i'r rhiant ddychmygu mai ei blentyn neu ei blant yw'r estron. Esboniwch i rieni sut allai'r plant fod yn gweld arian – ni fyddai llawer ohono'n gwneud synnwyr. Iddyn nhw, mae'r twll yn y wal a siopau yn rhoi arian am ddim. Mae rhieni yn prynu beth maen nhw eisiau, ond nid beth mae'r plant eisiau. Mae llawer o bethau yn ymddangos fel eu bod am ddim.

Mae copïau o'r lluniau o greaduriaid arallfydol wedi eu cynnwys yn y pecyn hwylusydd

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: CYFLWYNIAD, DALEN ATEBION HWYLUSWR

2. Cyflwyniad – Trafodaeth (10 munud, gorffen 35 munud i mewn i'r sesiwn)

Nod: I annog rhieni i feddwl am blant ac arian, negeseuon a gaiff plant, a'u rôl eu hunain o ran dysgu eu plant am arian.

Yn gyntaf, **esboniwch mai'r pethau yr ydych yn edrych arnynt heddiw yw**:

- Meddwl am pam fod angen i ni addysgu plant am arian o oed ifanc
- Trafod y dewisiadau mae ein plant yn eu gwneud o ran arian a'r rhai y gallwn ni fel rhieni wneud i helpu ein plant i ddysgu
- Archwilio ffyrdd o addysgu plant am arian trwy brofiadau bob dydd
- Trafod manteision ac anfanteision gwahanol ddewisiadau arian poced
- Archwilio ein pŵer personol ein hunan dros ddewis strategaethau i ddelio â heriau, fel pŵer plagio
- Meddwl am beth ydyn ni eisiau i'n plant ddysgu a sut i ddysgu hyn iddynt

Fel grŵp cyfan, arwain trafodaeth ar arian. Mae'r **cwestiynau i'w holi mewn print trwm,** ac yna ceir syniadau i ysgogi os oes angen.

- **Ble mae plant yn cael negeseuon am arian neu'n dysgu amdano?**
  - Rhieni / gofalwyr *(sylwer bod 'rhieni' yn cyfeirio at y ddau trwy gydol y sesiwn)*
  - Neiniau a theidiau / aelodau hŷn eraill o'r teulu
  - Brodyr a chwiorydd / cefndryd a chyfnitherod
  - Ffrindiau
  - Hysbysebion, teledu, cylchgronau, hysbysfyrddau, y rhyngrwyd ac ati
  - Teithiau allan
  - Ysgol
  - Chwarae

Dengys ymchwil bod plant yn dysgu mwy am arian gan rieni, a'u bod yn fwy tebygol o fynd at eu rhieni gyda chwestiynau ariannol. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i ni reoli ein harian ein hunain yn berffaith i'w helpu i ddysgu. Mae'n rheswm da i ddechrau meddwl am beth allwn ni ei drafod neu ei ddangos iddyn nhw, a sut y gall plant ddysgu.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: CYFLWYNIAD, DALEN ATEBION HWYLUSWR

- **Pam mae'n bwysig i blant ddysgu am arian yn ifanc?**
    - Mae sut fyddwn ni'n trin arian fel oedolion wedi ei lunio gan yr hyn a welwn, a ddysgwn ac a wnawn yn ystod plentyndod.
    - Gall ein hagweddau i gynilo, ein gallu i gynilo, ac os ydyn ni'n gweld arian fel rhywbeth i boeni amdano fod wedi eu sefydlu erbyn ein bod yn saith oed.
    - Mae rhieni yn chwarae'r rôl bwysicaf o ran helpu eu plentyn i ddatblygu'r sgiliau mae eu hangen arnynt, fel nad yw sut maent yn rheoli arian yn eu dal yn ôl pan fyddant yn oedolion.
    - Mae plant angen gweld sut y defnyddir arian, deall y dewisiadau mae'n rhaid eu gwneud gyda hyn, a chael cyfle i ymarfer gyda rhywfaint o'u harian eu hunain.
    - Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn canfod nad oedd nifer o'r rhai sy'n cael eu hunain mewn trafferthion o ran dyled wedi cael cyfle i ymarfer gydag arian fel plant. Y tro cyntaf y byddant yn rheoli eu harian eu hunain yw pan fydd yn fater tyngedfennol, a phan fydd goblygiadau gwneud camgymeriad yn llawer mwy difrifol
    - Mae rhai rhieni yn meddwl bod angen iddynt 'warchod' neu 'amddiffyn' eu plant rhag arian, ond mewn gwirionedd bydd hyn yn achosi mwy o broblemau i'w plant yn y pen draw
    - Yn y tymor byr, efallai y bydd plant sy'n dysgu'r sgiliau hyn yn llai tebygol o blagio rhieni sy'n lleihau straen i rieni.

Mae plentyndod yn gyfnod pwysig i ddysgu, gan gynnwys gwneud camgymeriadau. Mae gwneud camgymeriadau gydag arian yn helpu plant i ddysgu pan fydd y risg yn llai. Os byddant yn gwario eu harian i gyd ar losin ac yna'n methu fforddio gêm, byddant yn dysgu am gynilo a gwneud dewisiadau. Mae'r effaith yn llai na phe byddent yn gwario eu harian i gyd ar fynd allan fel oedolion ac yn methu fforddio talu'r rhent.

- **Pa fath o arferion, sgiliau a gwybodaeth all plant eudysgu i reoli arian?**
    - Gallu aros am bethau
    - Cynilo am bethau mae eu hangen arnynt
    - Sut i wneud dewisiadau a'u hesbonio
    - Deall na allant gael popeth maent ei eisiau
    - Deall angen ac eisiau
    - Cadw arian yn ddiogel
    - Cyllidebu, h.y. cynllunio sut fyddent yn gwario eu harian
    - Gwario llai ar bethau (diffodd goleuadau, prynu eitemau rhatach)

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: CYFLWYNIAD, DALEN ATEBION HWYLUSWR

- **Pam fyddem eisiau cynllunio beth ydym yn ei ddysgu yn hytrach na phenderfynu wrth fynd?**
    - Yn draddodiadol mae rhieni wedi dysgu eu plant am arian pan fydd y cyfle'n codi. Fodd bynnag, mae arian yn llai gweladwy nawr (h.y. defnyddio cardiau, gwario ar-lein, peidio mynd i fanciau), sy'n golygu bod llai o rieni yn siarad gyda'u plant am arian.
    - Mae yna ffyrdd newydd o ddysgu eich plant am arian i'w helpu nawr ac yn y dyfodol
    - Gallwn gynllunio beth ydyn ni eisiau iddynt ei ddysgu yn hytrach na dim ond ymateb i'r sefyllfa
    - Gallwn gynllunio trafodaethau yn y cartref o ran sut fyddwn yn gwario arian
    - Gallwn wneud yn siŵr bod yr hyn yr ydym yn ei ddysgu iddynt yn addas i'w hoed
    - Os ydyn ni'n poeni am drafod rhywbeth neu am wrthdaro, yna gall cynllunio sgyrsiau ein helpu i fod yn fwy hyderus
    - Gallai fod yn haws siarad am gredoau'r teulu ynghylch arian fel hyn

Mae esbonio beth sy'n digwydd yn eu helpu i wneud synnwyr o'r cyfan. Mae plant yn ein gweld yn prynu pethau. OS byddant yn gofyn am rywbeth a'n bod yn gwneud dim mwy nag arthio "*NA!"* gall eu drysu a'u gwneud yn rhwystredig.

Yn hytrach, gallwn esbonio "*Allwn ni ddim prynu hwn ar hyn o bryd am nad oes gennym arian <u>ychwanegol</u> ar ei gyfer. Mae gennym ni arian ar gyfer pethau rydyn ni eu <u>hangen</u> fel bwyd, ond dim arian ychwanegol ar gyfer pethau ydyn ni <u>eisiau</u> ar hyn o bryd. Ond mi alli di <u>gynilo</u> i'w brynu!"*

Mae cynllunio'r hyn rydym yn ei ddysgu yn ein helpu i drosglwyddo ein gwerthoedd o ran arian ac esbonio beth sy'n bwysig i ni. Os ydyn ni eisiau i'n plant fod yn gynilwyr da, gallwn drafod pam y byddem am gynilo a sut i gynilo. Cofiwch na fyddant o reidrwydd yn ein gweld ni yn cynilo o ddydd i ddydd.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: TAITH SIOPA, DALEN ATEBION HWYLUSWR

3. Addysgu Plant Trwy Weithgareddau o Ddydd i Ddydd – Taith Siopa (15 munud, gorffen 50 munud i mewn i'r sesiwn)

Nod: Mae'r gweithgaredd hwn wedi ei gynllunio i helpu rhieni i feddwl am sut allant ddysgu eu plant am arian trwy weithgareddau dydd i ddydd – yn yr achos hwn gyda thaith siopa.

Dosbarthwch y Senario Taith Siopa. Fel grŵp, darllenwch trwyddo a chael y rhieni i drafod y cwestiynau. Ceir ysgogiadau isod.

Meddyliwch am beth allai Jan ei wneud:

- **Cyn iddyn nhw fynd i siopa**
  - Gofyn i'r plant helpu i gynllunio un pryd neu beth sydd angen iddi ei brynu
  - Llunio rhestr
  - Esbonio i'r plant mai'r rhestr yw beth sydd ei ANGEN arni, ond weithiau y gellir ychwanegu ambell beth mae EISIAU, sef rhywbeth er pleser
  - Os yw'n mynd i brynu rhywbeth er pleser, ychwanegwch ef nawr
  - Edrychwch yn y cwpwrdd i weld os yw yno'n barod
  - Ar gyfer plant hŷn, trafodwch beth yw'r gyllideb ar gyfer y daith siopa
  - Penderfynwch os oes yna unrhyw beth mae'r plant yn mynd i brynu eu hunain. Os felly, gwnewch yn siŵr bod ganddynt arian (h.y. o arian poced). Gadewch iddynt ofalu am eu harian eu hunain os ydynt yn ddigon hen.
  - Bwytewch cyn mynd allan fel nad yw'r plant yn llwglyd.

- **Pan fyddan nhw'n cyrraedd yr archfarchnad**
  - Atgoffwch y plant am y rhestr
  - Diolchwch iddynt o flaen llaw am eu cymorth
  - Trafodwch sut mae'r siop wedi ei chyflwyno – mae siopau eisiau i chi brynu pethau a gwario arian. Allwch chi fod gam ar y blaen iddynt?
    - Yn aml mae ffrwythau a llysiau ger y fynedfa gan eu bod yn gwneud elw mawr ar y rhain
    - Mae hanfodion wedi eu dosbarthu yma ac acw, yn aml ar y cyrion – mae hyn yn golygu bod rhaid i chi gerdded heibio popeth i'w cyrraedd
    - Mae cynnyrch drytach ar lefel llygaid, brandiau rhatach yn is i lawr
    - Yn aml mae cynnyrch plant ar lefel llygaid

- **Wrth iddyn nhw fynd o amgylch y siop**
  - Os yw'r plant yn gofyn am bethau nad ydynt ar y rhestr, atgoffwch nhw fod rhaid iddynt gadw at y rhestr gan mai dim ond ar gyfer hynny mae arian ar gael
  - Gofynnwch i'r plant helpu i ffeindio pethau
  - Helpwch y plant i gymharu prisiau

→

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adroddiad a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: TAITH SIOPA, DALEN ATEBION HWYLUSWR

- Os yw'r plant yn anfodlon ar beidio cael prynu rhywbeth, defnyddiwch strategaeth pŵer plagio (byddwch yn gwneud hyn yn y gweithgaredd nesaf)
- Edrychwch ar y pecynnu a thrafod sut maent yn marchnata i blant
- Cymharwch gynigion arbennig, ond esboniwch mai dim ond os ydyn ni ei angen y mae'n gynnig da
- Diolchwch i'r plant am eu hymddygiad da ac am fod mor gymwynasgar

- **Ger y til**
  - Gwnewch yn siŵr bod y plant yn nodi sut mae'r siopau yn ceisio gwerthu losin neu ddanteithion i chi ger y til
  - Gofynnwch i'r plant roi pethau ar y belt i'w cadw'n brysur
  - Os ydych chi'n talu gydag arian, gwnewch yn siŵr eu bod yn helpu i dalu. Gall plant hŷn gyfrifo'r newid a'i wirio
  - Os ydych chi'n talu gyda cherdyn, esboniwch o ble daw'r arian i dalu am hyn
  - Esboniwch am gadw arian a PIN yn ddiogel
  - Gwiriwch fod y dderbynneb yn gywir
  - Canmolwch y plant am eu cymorth

- **Pam fyddai Jan eisiau cynllunio sut mae'n mynd i ddysgu ei phlant am arian, yn hytrach na gwneud hyn pan fo'r cyfle'n codi?**
  - Gall Jan feddwl am beth mae eisiau ei ddysgu i'r plant a sut i wneud hyn
  - Gall hyn helpu i leihau straen a delio â phlagio
  - Gellir cynllunio trafodaethau ac felly maent yn debygol o fynd yn well
  - Mae'n rhoi syniadau iddi am sut i ddelio â sefyllfaoedd anodd

Cofiwch, plant yw plant a byddant yn gofyn am bethau. Mae hynny'n beth arferol! Beth allwn ni reoli yw sut fyddwn ni'n ymateb i hyn. Gallwn esbonio pam nad ydym yn prynu rhywbeth, a beth yw eu dewisiadau (h.y. i gynilo ar ei gyfer, ei roi ar restr ac ati).

Os byddant yn strancio, does dim rhaid i ni ildio. Yn hytrach, gallwn ei weld fel cyfle i'w helpu i ddysgu hunanreolaeth a bod na'n golygu na. Yn raddol, byddant yn dysgu na fydd hyn yn ffordd o gael beth maent eisiau a'i bod yn haws trafod y mater.

Mae teithiau siopa yn ffordd wych o ddysgu plant am frandiau, hysbysebion a marchnata. Mae'n hwyl i gael plant i'ch helpu i fod yn fwy doeth na'r siopau ac arbed arian!

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Mae copïau o'r sefyllfaoedd taith siopa a ddangosir isod wedi eu cynnwys yn y pecyn hwylusydd

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: PŴER PLAGIO, DALEN ATEBION HWYLUSYDD

4. Pŵer Plagio (15 munud, gorffen 60 munud i mewn i'r sesiwn)

Nod: Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi syniadau i rieni ar sut i ddelio â "phŵer plagio," neu blant yn gofyn am bethau.

Byddwch angen **cynnal y gweithgaredd hwn yn gyflym** oherwydd cyfyngiadau amser, felly defnyddiwch ef i **symbylu.** Ar un ochr o'r ystafell **rhowch** yr arwydd *Mi wna i drio hyn*. Ar ochr arall yr ystafell rhowch yr arwydd *Wna i ddim trio hyn*. Mae *Dwi ddim yn siŵr* yn mynd i'r canol.

Darllenwch yn uchel y ffyrdd o ymateb i blagio gan blant. Dywedwch wrth y **rhieni i sefyll** ger yr arwydd sy'n cyd-fynd â beth maen nhw'n ei feddwl. **Gofynnwch** i rai o'r rhieni pam eu bod yn sefyll yno. *Dywedwch wrth y rhieni nad oes ateb cywir ac i feddwl am beth fyddai'n gweithio i'w teulu nhw.* (Os nad oes gennych le gofynnwch i'r rhieni sefyll os ydynt yn meddwl *Mi wnai drio hyn* ac eistedd os ydynt yn meddwl *Wnai ddim trio hyn*).

Cychwynnwch bob datganiad gyda **Pan fydd eich plant yn eich plagio (gofyn a gofyn) am bethau, a fyddech chi'n**

- Eu hatgoffa nhw eich bod wedi dod â rhestr siopa a bod yn rhaid cadw ati gan mai dim ond ar gyfer y pethau yna mae gennych chi arian heddiw
- Eu hatgoffa nhw eich bod wedi dod â rhestr siopa a bod yn rhaid cadw ati – ond cynhwyswch ambell beth ychwanegol pan na fyddant yn edrych
- Dweud "*Dwi'n gallu gweld dy fod di eisiau'r tegan yna, beth am i ni drafod y mater?"*
- Dweud "*Na*" ond pan fydd yn cael stranc ei brynu i'w stopio rhag sgrechian gan ei fod yn codi cywilydd arnoch
- Cynnig eu helpu i feddwl am sut y gallech gynilo ar ei gyfer
- Eu prynu am eu bod wedi bod yn dda y diwrnod yna
- Dweud *"Stopia dy swnian, mae'n fy ngyrru fi'n wyllt!"*
- Rhoi benthyg arian i'w brynu (ond sut fydd yn cael ei dalu'n ôl?)
- Ei anwybyddu
- Dweud na allwch ei brynu heddiw ond y byddwch yn ei nodi ar restr syniadau pen-blwydd / gwyliau y plentyn

Os oes amser, holwch y rhieni

- A oes ganddynt unrhyw strategaethau y gallant eu hawgrymu?
- A fyddant yn dechrau defnyddio unrhyw un nawr?

Gadewch i'r rhieni wybod bod mwy o syniadau yn y pecyn y byddant yn ei gael.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, project Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Mae copïau o'r arwyddion gweithgareddau wedi eu cynnwys yn y pecyn hwylusydd

EGWYL

(10 munud, yn terfynu 70 munud i mewn i'r sesiwn)

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: GÊM ARIAN POCED, DALEN ATEBION HWYLUSWR

5. Gêm Arian Poced (15 munud, gorffen 85 munud i mewn i'r sesiwn)

Nod: Cyflwyno rhieni i wahanol opsiynau o ran arian poced.

Mae'r gweithgaredd yn amlinellu nifer o wahanol opsiynau am sut y gallai teuluoedd reoli arian poced. Mae rhieni yn gallu trafod manteision ac anfanteision y ddau. Yna mae'r rhieni yn meddwl am beth fyddai'n gweithio orau i'w teulu a beth all plant ddysgu o dderbyn arian poced.

Gellir gwneud y gweithgaredd hwn fel grŵp mawr, mewn grwpiau bach, neu mewn parau. Dewiswch yr opsiwn sy'n gweithio orau i'ch grŵp.

Cyflwynwch y cardiau Opsiynau Arian Poced A4. Esboniwch fod y rhain yn enghreifftiau o sut allai rhieni reoli arian poced. Darllenwch y rhain i'r rhieni. Naill ai trafodwch bob un fel grŵp cyfan neu rhowch gerdyn i grwpiau bach / parau drafod a rhoi adborth arnynt.

Gofynnwch i'r rhieni ddarllen y cerdyn (neu ddarllen hyn ar eu cyfer os yw llythrennedd yn broblem) a thrafod manteision ac anfanteision (buddion / rhwystrau) y dewis. Gofynnwch iddynt ystyried:

- A fyddai'r dewis hwn yn rhoi cyfle i blant ddysgu am arian?
- Sut fyddai'n helpu i leihau straen o ddydd i ddydd? A allai leihau plagio?
- A fyddai'n caniatáu i'r plentyn reoli ei arian ei hun?

Ceir enghreifftiau o Fanteision / Anfanteision ar gyfer pob opsiwn ar y dalenni dilynol os oes angen ysgogi'r rhieni.

Ar y diwedd, anogwch nhw i feddwl am y canlynol (hyd yn oed os na allwch drafod hyn fel grŵp)

- Beth fyddai'n gweddu orau i chi fel teulu?
- Pryd sy'n oed da i ddechrau arian poced?
- Beth os na allwch fforddio rhoi arian poced rheolaidd?
- A ddylid gorfodi plant i gynilo rhywfaint o'u harian poced (e.e. 5c, 50c ac ati) bob wythnos tuag at nodau tymor hir (fel prifysgol)?

Esboniwch y bydd yna syniadau pellach am arian poced yn y llyfryn, ond atgyfnerthwch fod arian poced yn ffordd ddefnyddiol o roi eu harian eu hunain i blant ei reoli. Mae hyn yn eu galluogi i ddysgu sut i gyllidebu, cynilo, a gwneud camgymeriadau – tra bod y "risg" yn llawer is.

Esboniwch i'r rhieni nad faint o arian poced sy'n bwysig, ond yn hytrach rhoi cyfle i blant i ymarfer rheoli eu harian eu hunain. Os yw rhieni yn teimlo nad ydynt yn gallu ei fforddio, mae'n werth edrych ar faint maent yn ei wario ar eu plant. Allai rhywfaint o hyn fynd ar arian poced a chael plant i brynu pethau eu hunain ohono? Bydd hyd yn oed swm bychan yn helpu plant i ddysgu.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Quaker Social Action

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: GÊM ARIAN POCED, DALEN ATEBION HWYLUSWR

Enghreifftiau o fanteision ac anfanteision pob dewis

Peidio rhoi arian poced iddynt. Rhoi arian iddynt pan fyddant ei eisiau ar gyfer teganau ac ati
Manteision:

- Does dim rhaid i chi gofio rhoi arian yn rheolaidd

Anfanteision

- Plant ddim yn dysgu rheoli arian yn rheolaidd
- Plant ddim yn cael cyfle i gynilo am bethau'n rheolaidd
- Plant yn gofyn am bethau o hyd
- Rhieni yn gorfod trafod pob tro bydd plant yn gofyn – a fyddant yn ei brynu neu beidio?
- Mae yna lai o gysondeb felly fe fydd yn anoddach i blant ddysgu sut i gyllidebu
- Dyw plant ddim yn dysgu beth yw gwerth pethau

(Gall fod yn fantais neu anfantais)

- Gall rhieni brynu pethau iddynt yn rheolaidd (efallai y bydd hyn yn beth positif i rai rhieni, ond gall fod yn anfantais gan nad yw plant yn dysgu i gyllidebu a chynilo am bethau maent eisiau)
- Cael rheolaeth dros beth maent yn ei brynu

Rhoi arian poced wythnosol iddynt i brynu eu losin / teganau eu hunain (heblaw am ben-blwyddi, gwyliau ac ati)
Manteision

- Plant yn dysgu rheoli arian yn rheolaidd
- Plant yn dysgu sut i gynilo
- Gall plant wneud “camgymeriadau” ond dysgu o hyn
- Rhieni dan lai o bwysau i brynu pethau
- Pan fydd plant yn rhoi pwysau ar eu rhieni, gellir eu hatgoffa bod ganddynt eu harian eu hunain
- Gall teuluoedd drafod sut maent yn gwario eu harian
- Plant yn dysgu beth yw gwerth pethau

Anfanteision

- Mae’n rhaid i rieni gofio rhoi arian yn rheolaidd
- Efallai nad oes gan rieni arian i'w roi yn rheolaidd (ond atgoffwch rieni nad oes angen i hyn fod yn swm mawr bob wythnos)
- Llai o gyfle i rieni brynu pethau i blant yn rheolaidd (fydd yn rhywbeth y bydd rhai rhieni yn gweld ei eisiau, tra bod eraill yn gweld hyn fel rhywbeth positif gan fod llai o bwysau arnynt).

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: GÊM ARIAN POCED, DALEN ATEBION HWYLUSWR

Faint o arian poced ddylwn i'w roi?
Atgoffwch y rhieni nad oes "swm cywir" o arian poced. Mae'n rhaid ei fod o fewn eu cyllideb, eu credoau eu hunain o ran arian, ac yn gweddu i oed y plentyn. Wrth iddynt benderfynu faint maent eisiau ei roi, dylech feddwl am ar beth maent yn disgwyl i'w plant ei wario ac os oes angen cynilo rhywfaint pob wythnos. Hefyd meddyliwch am pryd fydd yn cael ei godi – ar bob pen-blwydd? Wedi cyrraedd y cam nesaf o'r ysgol? Eto, does dim ateb cywir ac nid y swm sy'n bwysig – cael y cyfle i ymarfer rheoli arian sy'n bwysig nawr.

Plant yn ennill arian poced trwy wneud tasgau o amgylch y tŷ.
Manteision

- Plant yn dysgu i weithio am eu harian
- Plant yn fwy tebygol o wneud tasgau pan ofynnir iddynt
- Gall plant wneud "camgymeriadau" ond dysgu o hyn
- Plant yn cael arian i'w reoli (os ydynt yn gwneud eu tasgau)

Anfanteision

- Plant ddim yn cael arian yn rheolaidd
- Rhieni angen system ar gyfer talu / cadw trefn
- Efallai y bydd yn anoddach i blant gynilo arian gan nad yw'n rheolaidd
- Mae rhai teuluoedd yn teimlo y dylai plant wneud tasg oherwydd y gofynnir iddynt, nid am eu bod yn cael tâl

Rhoi arian poced iddynt pan fydd yna arian dros ben.
Manteision

- Gall rhieni roi arian iddynt pan allant ei fforddio
- Does dim rhaid cofio rhoi arian yn rheolaidd
- Plant yn dysgu nad oes digon o arian ar gyfer pethau o hyd

Anfanteision

- Plant yn cael llai o gyfleoedd i drin arian
- Efallai na fydd plant yn gallu cynilo
- Plant ddim yn dysgu rheoli arian / cyllideb yn rheolaidd
- Plant yn dal i ofyn am bethau
- Teuluoedd yn debygol o fod yn dal i wario arian ar bethau da ac ati

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Mae copïau o'r cardiau A4 opsiwn arian poced ar gael yn y pecyn hwylusydd



Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: TRAFODAETHAU AM ARIAN YN Y CARTREF, TAFLEN DWYLLO'R HWYLUSYDD

6. Taflen Awgrymiadau ynghylch Trafodaethau am Arian (15 munud, yn gorffen 25 munud i mewn i'r sesiwn)

Nod: Pwrpas y gweithgaredd hwn yw rhoi help i rieni feddwl am yr oed gorau i ddechrau trafod materion ariannol ac i annog rhieni i ddechrau gwneud hynny.

Fe'i cynhelir fel gweithgaredd grŵp cyfan. Ar y bwrdd neu ar y llawr **gosodwch y cardiau oed A4**:

- 3-4
- 5-6
- 7-9
- 10-11
- efallai pan fyddant yn hŷn

Yna **rhoddir cardiau syniadau trafodaeth** i'r rhieni. Mae'r cardiau yn bethau ynglŷn ag arian y gallent drafod gyda'u plant. *Os yw llythrennedd yn broblem darllenwch y cerdyn allan i'r rhieni.*

Gofynnwch i'r **rhieni ddarllen y cardiau syniadau trafodaeth**, a phenderfynwch beth fyddai'r oed gorau ar gyfer dechrau siarad â'u plant am hyn.

Mae amser yn brin, felly anogwch benderfyniadau sydyn a'u hatgoffa nad oes ateb cywir nac anghywir, efallai na fyddant yn cytuno ond does dim ots am hynny. Y syniad yw meddwl am yr hyn sy'n iawn i'r teulu.

Wrth i chi fynd ati, prociwch y drafodaeth gyda rhai cwestiynau:

- Beth fyddai hyn yn ei ddysgu i'ch plentyn?
- Sut allai hynny eu helpu wrth iddynt dyfu'n hŷn?
- Sut allai hynny eich helpu fel teulu (h.y. lleihau gofynion a phryder yn sgil hynny)?

Drwy gydol y broses, atgoffwch nhw y bydd dysgu materion ariannol i blant o oed ifanc yn eu helpu i reoli arian yn well fel oedolion. Fel amryw o sgiliau eraill, gellir dysgu hyn iddynt.

Bydd hefyd yn helpu i leihau straen yn y cartref ynglŷn ag arian wrth i blant ddechrau deall nad oes pwll diwaelod o arian, a bod rhaid i ni wneud penderfyniadau ynglŷn â beth i wario ein harian arno. Fel popeth arall nid yw hyn yn golygu y bydd plant yn rhoi'r gorau i ofyn am bethau, neu'n gwylltio os mai na yw'r ateb, ond fel teulu bydd yr iaith a'r offer gennych chi i siarad am hyn a datblygu sgiliau gwerthfawr i'r dyfodol wrth wneud hynny.

Pwysleisiwch nad oes raid i ni reoli'n harian yn berffaith i fedru cael y trafodaethau hyn.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Mae copïau o'r cardiau oed A4 a syniadau trafod a ddangosir isod wedi eu cynnwys yn y pecyn hwylusydd

Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Efallai pan fyddant yn hŷn



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

QUAKER SOCIAL ACTION

Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Mae copïau o'r cardiau oed A4 a syniadau trafod a ddangosir isod wedi eu cynnwys yn y pecyn hwylusydd

Bod gennym arian ar gyfer y pethau sylfaenol, ond nid ar gyfer y pethau ychwanegol ar hyn o bryd

Beth yw dyled

Sut mae cardiau credyd yn gweithio

Ffyrdd i dorri'n ôl ar wario

Yr hyn mae hysbysebion yn ceisio ei wneud

Beth a olygir gan brand y siop yn erbyn enw brand

Sut i dalu mewn siop

Pam ei bod hi'n bwysig/ lle i gadw'ch arian yn ddiogel h.y. cadw-mi-gei, gwahanol gyfrifon banc ac ati



Y gall cynilo greu cyfleoedd (gwyliau, car newydd ac ati)

Beth yw biliau a dulliau o'u talu

Y gall chwilio am y fargen orau arbed arian i ni

Ni allwn brynu popeth a ddymunwn

Cynilo ar gyfer nodau hirdymor h.y. gwyliau, car neu addysg

Sut i arbed arian ar drydan / nwy



Dywedwch "NA" ni allwn brynu hwnna ...a pham "oherwydd"

Cynilo ar gyfer nodau tymor byr h.y. tegan newydd

Yr hyn ddywed ein ffrindiau am frandiau

Os teimlwn dan straen ynglŷn ag arian

Sut mae apiau ar-lein yn ceisio gwneud i ni wario arian

Cost pethau



Yr hyn a wariwch arian eich teulu arno

Mae prynu pethau ar-lein angen arian

O ble y daw ein harian



Unwaith y gwariwn ein harian, mae wedi mynd hyd nes i ni gael neu gynilo rhagor

Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian

PRIF SESIWN: BETH NESAF?, TAFLEN DWYLLO HWYLUSYDD

7. Beth Nesaf? a Llyfryn **(10 munud, yn gorffen 110 munud i mewn i'r sesiwn)**

Nod: I helpu i gasglu ynghyd yr hyn a ddysgwyd o'r sesiwn ac i rieni feddwl am yr hyn y byddant yn ei roi ar waith nawr yn y cartref.

Atgoffwch rieni eu bod wedi treulio heddiw yn meddwl am ffyrdd y gallant siarad â'u plant a'u dysgu am arian, i'w helpu nawr ond i'w helpu hefyd i reoli arian yn well wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Dosbarthwch y Taflenni Gweithredu Beth Nesaf? **Gofynnwch i'r rhieni feddwl am 3 pheth** yr hoffent i'w plant ei ddysgu am arian wrth iddynt dyfu'n hŷn a dod yn oedolion. Gofynnwch iddynt ysgrifennu hynny i lawr ar y taflenni gweithredu. (Os byddant angen help i ysgrifennu gallech eu hysgrifennu hefyd ar siart droi neu gwblhau'r taflenni ar eu rhan).

Syniadau am bethau y trafodwyd o'r blaen gan rieni yw:

- Cynilo
- Cyllidebu
- Gwybod y gwahaniaeth rhwng angen ac eisiau
- Byw o fewn eu cyllideb
- Rhoi arian i elusen
- Disgwyl am bethau

Nawr gofynnwch i'r rhieni **ysgrifennu pethau i lawr y gallant eu gwneud adref** i helpu eu plant i ddysgu'r pethau hyn. Anogwch y grŵp i ddod yn ôl at y daflen hon bob amser i'w hatgoffa, ac i feddwl am bethau newydd wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Wedi hynny, dosbarthwch y llyfryn i rieni yn dangos y gwahanol rannau iddynt.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adnoddau a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Mae copïau o'r taflenni beth nawr wedi eu cynnwys yn y pecyn hwylusydd

Siarad, Dysgu, Gwneud:
Rhieni, Plant ac Arian

Yr wythnos hon siaradoch am **Wobrau**.

Wrth i chi feddwl am wobrau a gynigiwch fel teulu, meddyliwch am ddymuno cynnig gwobrau sy'n costio arian. Os gwnewch hynny, efallai yr hoffech egluro i'ch plant pam a pha bryd y cânt hynny (e.e. teganau, rhagor o arian poced) i leihau ar ba mor aml y byddant yn gofyn ar adegau eraill.

Mae amryw o wobrau nad ydynt yn costio rhagor o arian a bydd o fudd trafod hynny efo'ch plant a chanfod beth maent yn ei hoffi. Yn ogystal â chael gwobr, mae hyn yn ffordd wych o ddangos i'ch plant eich bod yn eu gwerthfawrogi ac yn mwynhau eich amser gyda'ch gilydd. Gallai hynny gynnwys:

- Cyffyrddiad annwyl
- Cael rhagor o straeon
- Mynd i rywle sy'n rhad ac am ddim yn lleol i chi
- Chwarae gêm o'u dewis nhw
- Gadael i'ch plentyn ddewis beth fyddwch yn ei goginio
- Anogaeth
- Bod yn wirion gyda'ch gilydd
- Trip ychwanegol i'r llyfrgell
- Gwylio rhagor o deledu gyda'ch gilydd
- Trip arbennig i'r parc
- Mynd am dro gyda'ch gilydd

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Gwasanaeth Cynghori Ariannol
QUAKER SOCIAL ACTION
Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud:
Rhieni, Plant ac Arian

Yr wythnos hon siaradoch am **Reolau/Cytundebau'r Teulu**.

Pam na feddyliwch chi am ychydig o reolau sy'n ymwneud ag arian?
Gallent gynnwys rheolau ynghylch:

- **Arian poced, pwy sy'n ei gael, pa mor aml ac a yw'n cael ei roi neu ei ennill**
- **Beth mae modd neu nad oes modd gwario arian arno**
- **A oes yna unrhyw "gyfyngiadau" ar wario arian e.e. "ni chawn brynu teganau newydd oni bai bod ein hystafell yn daclus"**
- **Y ffyrdd yr ydych chi fel teulu yn arbed arian e.e. rydym yn diffodd y golau wrth adael yr ystafell, rydym yn troi'r tap i ffwrdd fel nad yw'r dŵr yn parhau i redeg**
- **Gofyn yn ddi-baid am bethau e.e. "Ni fyddwn yn prynu rhywbeth os bydd swnian amdano"**

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Gwasanaeth Cynghori Ariannol
QUAKER SOCIAL ACTION
Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud:
Rhieni, Plant ac Arian

Yr wythnos hon siaradoch am **Gysondeb a Ffiniau**.

Bydd bod yn gyson am arian yn helpu plant i ddeall y rheolau ynghylch hyn a'u helpu i ddysgu sut i reoli eu harian eu hunain hefyd. Gall hefyd achosi iddynt ofyn am bethau o hyd ac o hyd (pŵer plagio).

Rhai ffyrdd y gallwch fod yn gyson ynghylch arian yw:

- £ **Rhoi arian poced ar yr un adeg bob wythnos**
- £ **Bod yn glir ynghylch yr hyn rydych angen gwario eich arian arno a pham**
- £ **Egluro beth allant wario eu harian arno a'r hyn y talwch chi amdano**
- £ **Siarad am yr hyn y bwriadwch ei brynu cyn mynd i mewn i'r siop**
- £ **Gadael plant wybod os ydych am brynu rhywbeth arbennig ac egluro pam, neu pam ddim**
- £ **Rhoi help iddynt feddwl am sut allant gynilo am y pethau a ddymunant eu cael**

Os yw'n bosibl gofynnwch i eraill helpu gyda hyn.
Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i chi a'ch plant ddeall.

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Gwasanaeth Cynghori Ariannol
QUAKER SOCIAL ACTION
Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Siarad, Dysgu, Gwneud:
Rhieni, Plant ac Arian

Yr wythnos hon siaradoch am **Ddewisiadau a Goblygiadau**.

Bydd rhoi dewisiadau i blant ynghylch arian o gymorth iddynt ddysgu sut i'w reoli. Bydd dewisiadau yn dibynnu ar eu hoed, faint o arian sydd ganddynt a beth allant wario eu harian arno. Er mwyn dysgu hyn, mae'n ddefnyddiol i blant gael eu harian eu hunain i'w wario.

Dyma enghraifft o sefyllfa:

> **Cei brynu'r pethau da neu ddal ati i gynilo hyd nes y bydd genti ddigon o arian i brynu'r gêm yna. Beth hoffet ti ei wneud?**
>
> **Gelli roi help i mi ysgubo'r dail ac ennill rhagor o arian.**

Os bydd angen goblygiad clir, yna dylid egluro hynny'n glir.

> **Cei gynilo dy arian neu ei wario nawr. Os byddi di'n ei gynilo, mi fyddi di'n nes at y swm y byddi ei angen i brynu'r gêm yna. Os byddi di'n gwario'r arian nawr mi gei'r pethau da ond bydd hi'n cymryd mwy o amser i ti brynu'r gêm. Beth hoffet ti ei wneud?**
>
> **Gelli ysgubo'r dail neu benderfynu peidio. Os byddi di'n ysgubo byddi'n ennill arian. Os na fyddi di'n ysgubo'r dail ni fyddi di'n ennill arian.**

Mae caniatáu i blant wneud camgymeriadau yn ffordd bwysig o ddysgu hynny.

Mae rhoi arian i blant iddynt ei wario eu hunain (fel arian poced) yn help.

Os byddant yn gwneud camgymeriadau, trafodwch oblygiadau'r dewisiadau hynny gyda nhw er mwyn iddynt ddeall. Nid yw rhoi rhagor o arian iddynt i'w hatal rhag mynd yn flin yn eu helpu i ddeall goblygiadau eu penderfyniadau yn wirioneddol.

> **Dwi'n gwybod dy fod yn flin nad oes genti arian i brynu'r tegan yna, ond mi wnes di ddewis gwario dy arian ar gylchgrawn yn hytrach. Nawr bydd angen i ti gynilo ar gyfer y tegan yna rwyt ti am ei gael.**

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Gwasanaeth Cynghori Ariannol
QUAKER SOCIAL ACTION
Adnodd a ddatblygwyd gan Made of Money, prosiect Quaker Social Action, ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.